Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaeth Seibiant Bryn Siriol**

**Aberystwyth**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwasanaeth Seibiant Bryn Siriol

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Frenhinol Mencap |
| Lleoedd cofrestredig | 3 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Rhagfyr 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn defnyddio'r gwasanaeth am gyfnodau byr drwy gydol y flwyddyn. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth. Dywedodd cynrychiolydd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth, *“I couldn’t ask for a better place”.* Mae gweithwyr cymorth brwdfrydig a phrofiadol yn meithrin cydberthnasau rhagorol â'r unigolion. Mae'r cynlluniau personol wedi'u personoli'n llawn ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i arwain y gweithwyr gofal.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac mewn cyflwr da. Mae offer a chyfarpar cyfathrebu hygyrch ar gael er mwyn i'r bobl gynnal eu hannibyniaeth.

Caiff y gwasanaeth ei arwain yn ardderchog gan reolwr cefnogol sy'n hawdd mynd ato, sy'n adnabod y bobl ac yn eu deall yn dda. Mae gan y darparwr Unigolyn Cyfrifol newydd, sydd wrthi'n dod i adnabod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn gweithio yno. Mae gan y darparwr drefniadau o ansawdd uchel ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth, yn cynnwys strwythur cymorth sy'n canolbwyntio ar ysgogi gwelliannau.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sydd wedi'u personoli'n llawn wrth ddefnyddio'r gwasanaeth ar gyfer arosiadau byr. Mae'r unigolion yn deall y cyfleoedd gwahanol sydd ar gael iddynt, ac yn defnyddio'r rhain i wella eu llesiant. Mae'r gweithwyr cymorth yn annog y bobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt yn y gwasanaeth ac yn yr ardal leol. Mae'r rheolwr yn cynnwys y bobl, eu cynrychiolwyr, y staff gofal a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Mae’r bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu ac adolygu cynlluniau personol.

Mae'r bobl yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a chânt eu cefnogi i weithio tuag at eu nodau unigol. Mae gan y gwasanaeth ethos sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau ac mae'r bobl yn cael gwneud yr hyn y maent yn mwynhau ei wneud drwy gymryd risgiau cadarnhaol. Mae'r staff cymorth yn parchu'r bobl sy'n cymryd amser i feithrin cydberthnasau cadarnhaol. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *“The staff are absolutely marvellous, they have such a positive attitude to everything, they are so welcoming and easy to talk to”.* Gall y bobl gyfathrebu'n Gymraeg neu'n Saesneg gyda sawl aelod o'r staff. Mae'r gwasanaeth hefyd yn defnyddio dulliau creadigol a hygyrch i gefnogi'r cyfathrebu.

Mae'r adeilad mewn cyflwr da, yn gartrefol ac wedi'i ddylunio i gefnogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Gall y bobl wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt fel gwylio'r teledu, chwarae gemau cyfrifiadurol, ymlacio yn yr ystafell synhwyraidd a choginio eu prydau eu hunain. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddefnyddio gan y bobl i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol er mwyn eu galluogi i fwynhau treulio amser gyda'i gilydd.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed gan fod y prosesau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir. Mae'r gweithwyr yn cael hyfforddiant sefydlu cynhwysfawr a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus, ac maent yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn diogelu'r bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon.

Mae gan y bobl lais gan fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cynnwys mewn ymweliadau chwarterol statudol. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn adroddiad gyda chynllun gweithredu clir a chaiff ei defnyddio i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn defnyddio'r gwasanaeth am gyfnodau o seibiant drwy gydol y flwyddyn. Caiff pob ymweliad ei deilwra i ddiwallu anghenion y bobl. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym *“We arrange the stay around what people want - some like to have their regular routine, others like a break and others like to do different things”.* Mae'r unigolion a'u cynrychiolwr yn gadarnhaol iawn am yr effaith ardderchog y mae'r gwasanaeth yn ei chael ar eu llesiant. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *“It’s very homely and he likes the relaxed atmosphere. They are very welcoming and he really enjoys his activities”.* Mae'r gweithwyr cymorth yn meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â'r bobl ac yn rhoi o'u hamser i ddeall eu harddulliau cyfathrebu unigryw. Wrth drafod y canlyniadau cadarnhaol i'r bobl, dywedodd un gweithiwr wrthym *“It’s nice to see the people we support laughing and smiling so much”.*

Mae'r bobl a'r rhai sy'n bwysig iddynt yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o ddatblygu eu cynlluniau personol. Mae'r darparwr yn defnyddio system electronig i sicrhau bod y cynlluniau yn gywir ac yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf ar y ffordd orau o gefnogi'r bobl i gyflawni eu nodau. Wrth adolygu'r cynlluniau personol, mae'r rheolwr yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth gan yr unigolyn, ei gynrychiolwyr, y gweithwyr cymorth a gweithwyr proffesiynol allanol. Mae asesiadau risg cadarnhaol yn helpu i gynnal diogelwch ac yn annog y bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cymryd rhan yn y broses o adolygu'r cynlluniau ac yn darparu cyngor a chyfarpar arbenigol. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio system codau QR electronig er mwyn rhannu gwybodaeth â'r staff yn effeithiol. Mae'r gweithwyr allweddol yn cysylltu â'r bobl a'u cynrychiolwyr ar ôl pob arhosiad er mwyn cael adborth ganddynt ar yr ymweliad a chanfod a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i wella'r gwasanaeth. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *“We get a call before and after his visit and a comprehensive report, which is so reassuring. We can then discuss things with [Manager] if needed”.*

Caiff meddyginiaethau eu rheoli'n briodol. Mae'r system rheoli electronig yn cofnodi pob tro y caiff meddyginiaeth ei rhoi ac yn anfon rhybudd os bydd meddyginiaeth yn hwyr.

Mae'r bobl yn mwynhau gweithgareddau gwahanol yn unol â'u dewisiadau unigol. Mae'r bobl yn gwneud pethau yn y gwasanaeth, yn mwynhau prydau allan, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, yn gwylio ffilmiau ac yn ymweld â'r amgueddfa a'r llyfrgell leol. Caiff y gwasanaeth ei ddefnyddio fel hyb i bobl gwrdd â'i gilydd ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *“He had a great time at the party and is looking forward to the next one”*

Mae nifer y gweithwyr cymorth sydd ar gael yn newid yn unol ag anghenion a aseswyd pob unigolyn yn ystod eu hymweliad. Mae'r staff hyblyg a charedig hefyd yn darparu rhywfaint o allgymorth i bobl sy'n byw yn lleol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn treulio eu hymweliadau mewn amgylchedd cartrefol a chroesawgar sy'n helpu i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae cyfleusterau a chyfarpar ar gael i helpu'r bobl gyda'u heriau symudedd. Mae adnoddau cyfathrebu cynhwysfawr ar gael er mwyn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd o amgylch yr adeilad, gan eu hannog i gynnal eu hannibyniaeth. Mae'r bobl yn mwynhau treulio amser yn y gerddi hygyrch yn ystod cyfnodau o dywydd cynnes, yn garddio, yn cael barbeciws, ac yn ymlacio yn yr ystafell synhwyraidd.

Mae'r bobl wahanol sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ei ddefnyddio fel hyb i drefnu digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Dywedwyd wrthym am y barbeciws a gynhelir yn ystod yr haf, a'r partis Calan Gaeaf, ac mae pawb yn edrych ymlaen at y digwyddiad Nadolig.

Mae gan y darparwr systemau cadarn ar waith i sicrhau y caiff archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd o'r eiddo eu cwblhau. Mae'r staff yn cynnal y profion gofynnol ar y cyfarpar diogelwch tân.  Mae'r Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng yn gyfredol ac ar gael mewn argyfwng.

Cafodd y gegin sgôr o bump ar gyfer hylendid bwyd. Mae addasiadau fel arwynebau gwaith y gellir eu haddasu yn galluogi'r bobl i wneud cymaint drostynt eu hunain â phosibl wrth goginio. Mae'r bobl a'u gweithwyr cymorth yn cynllunio prydau bwyd, yn siopa ar eu cyfer ac yn eu coginio gyda'i gilydd.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae trefniadau effeithiol iawn ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae uwch-aelodau o'r staff yn ymweld â'r gwasanaeth i gynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ac yn llunio cynlluniau gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion. Mae'r darparwr wedi recriwtio Unigolyn Cyfrifol newydd, sy'n cael ei gan yr Unigolyn Cyfrifol blaenorol gefnogi i ddod i adnabod y gwasanaeth. Mae ymweliadau chwarterol statudol yr Unigolyn Cyfrifol yn gynhwysfawr ac yn cynnwys y bobl a/neu eu cynrychiolwyr a'r staff. Dywedodd un gweithiwr cymorth wrthym *"I'm very happy to phone [RI] if needed and that makes a huge difference knowing I have support if I need it".* Caiff gwybodaeth o archwiliadau ansawdd ac adborth gan y bobl, eu cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol eu defnyddio yn yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis.

Mae'r rheolwr yn defnyddio systemau electronig i sicrhau bod y ddogfennaeth yn gynhwysfawr, yn ddefnyddiol ac yn gyfredol. Dywedwyd bod y rheolwr yn hygyrch ac yn cefnogi pawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth. Dywedodd un cynrychiolydd, *"We got to know her (manager) before he started going there and she's great with communication".* Wrth drafod y rheolwr, dywedodd y gweithwyr cymorth wrthym *"We can raise things with her at any time"* ac *"If we have any issues, she helps us sort them out straight away"* a *"She is very supportive and respects us".* Mae arweinyddiaeth ganmoladwy'r rheolwr wedi creu diwylliant cynhyrchiol yn y gwasanaeth gyda'r tîm cryf o weithwyr cymorth sy'n grymuso.

Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd ac ysgogol ac arfarniadau blynyddol. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym *"Supervisions are individualised rather than one size fits all and we do talk about the regular things like training and care plans"*. Mae gan y gweithwyr ddealltwriaeth dda o ddiogelu ac maent yn hyderus i roi gwybod am bryderon. Mae'r staff yn gyfarwydd â'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol sy'n arwain eu hymarfer.

Caiff gwiriadau cyn cyflogi megis geirdaon, hawl i weithio a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cynnal cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae staff newydd yn cael hyfforddiant sefydlu cynhwysfawr. Mae hyfforddiant gorfodol parhaus sy'n benodol i'r unigolyn yn helpu'r gweithwyr i ddiwallu anghenion unigol y bobl. Mae'r rheolwyr yn helpu'r staff i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn hyrwyddo sgiliau pellach drwy ennill cymwysterau proffesiynol.

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod nifer digonol o staff i ddiwallu anghenion unigol y bobl pan fyddant yn aros yn y gwasanaeth. Mae system gweithwyr allweddol yn helpu'r bobl a'u cynrychiolwyr i feithrin cydberthnasau â'r staff.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/01/2024